

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 3^{YDD} MAWRTH 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD)

1.3 Ymddiheuriadau: Elen H Edwards (EHE) a Garffild Ll Lewis (GLL)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ) a Gwyn Williams (GW). CR am gysylltu eto efo GW i weld os yw am gario ymlaen fel Cynghorydd gan nad yw wedi mynychu ers tro a heb yrru ymddiheuriadau.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 13^{EG} IONAWR 2020

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan AV.

4 MATERION YN CODI

Dim materion yn codi.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/48117 – dim sylw, cymeradwyo'r cais.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Cyflog Enlli: trafododd EW ei bod wedi trafod gradd cyflog cyfieithu yn ei gwaith a fod y raddfa oddeutu £50-80 pob 1,000 o eiriau. Enlli i gadw cofnod o amser cyfieithu mis yma erbyn y pwyllgor nesaf i'w drafod ymhellach.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Covid-19: cymorth i drigolion lleol: EW yn adrodd ei bod wedi bod mewn cyswllt ynglyn â prosiect digidol efo pobl wedi ymddeol yn Sir Conwy i ddysgu defnyddio cyfrifiaduron – yn ystod y cyfnod clô, eu bod wedi gallu cadw mewn cysylltiad efo'u teuluodd drwy dechnoleg. Syniad gwneud prosiect tebyg yn y fro ar ôl i'r cyfnod clô ddod i ben. CR yn codi trafodaeth yn y pwyllgor blaenorol i gael cyfrifiaduron i blant i'w llogi er mwyn gwneud gwaith ysgol. Egin syniad ar hyn o bryd, i'w drafod eto pan fydd cyfyngiadau Covid-19 wedi llacio/dod i ben. Pawb yn gytun i EW gysylltu efo Meira Woosnam yn y Cyngor Sir i geisio symud ymlaen efo'r syniad.

7.2 Mainc solar: CR yn mynd i drefnu cyfarfod efo Kevin Roberts wrth y safle newydd nodedig.

7.3 Cais am fainc: REW wedi bod yn y fynwent yn chwilio am leoliad addas ar gyfer y fainc, buasai angen rhoi slab concrit o dan y fainc pan yn ei lleoli. AV i yrru copi o wybodaeth am feinciau mae Amgueddfa Syr Henry Jones i CR basio ymlaen i'r teulu sydd wedi rhoi cais ynghyd. CR hefyd am nodi buasai angen i'r teulu dalu am osod y fainc hefyd, buasai'n syniad gofyn wrth Kevin Roberts am bris ar ran y teulu i osod sylfaen i'r fainc i wneud yn siwr fod y fainc am fod yn saff, gan fod y Cyngor yn gwybod fod safon gwaith Kevin yn uchel ac yn ddibynadwy.

7.4 Llythyr Eisteddfod Dyffryn Conwy: wedi penderfynu gohirio'r Eisteddfod eleni oherwydd Covid-19, diolch i'r Cyngor am gefnogi'r Eisteddfod dros y blynyddoedd diwethaf.

7.5 Gor-yrru yn Llangernyw: CR wedi derbyn ebost gan deulu yn Llangernyw yn cwyno am y gor-yrru drwy'r pentref er fod yr arwyddion 20mya yng nghanol y pentref ers tro bellach, ond fod llawer o bobl ddim yn cymeryd sylw ohonynt. Gofyn os oes modd cael yr heddlu allan i fonitro'r sefyllfa. Trafodaeth fod yr arwyddion ddim yn glir ac yn anodd i'w gweld. CR am gysylltu efo GLL i ofyn os oes modd symud yr arwyddion fel eu bod yn fwy amlwg. DR yn holi os oes modd paentio 20mya ar y ffordd i dynnu sylw, CR i ofyn hyn wrth GLL hefyd.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Wedi ei dderbyn o flaen y cyfarfod yn ei absenoldeb. CR am yrru hwn ymlaen i'r Cynghorwyr i gyd ar ôl y cyfarfod.

"Materion Cyngor Sir

Cyllideb 2021/22 a Threth y Cyngor (Cyfarfod Cyngor Llawn 4ydd o Fawrth):

Yn ei adroddiad blynyddol mae'r Prif Swyddog Cyllid yn datgan fod cynllunio ariannol ar gyfer 2021/22 wedi bod yn arbennig o anodd o ganlyniad i'r her o ddelio gydag effeithiau'r Pandemig, ac ansicrwydd ariannol o gyfeiriad Llywodraethau Cymru a'r DU. Rhagwelir y bydd diffyg o tua £4 miliwn yn y gyllideb eleni ac o ganlyniad i hynny mae'r Cabinet wedi penderfynu codi'r Dreth Cyngor 2.95% (Gwynedd yn 3.7% a Sir Ddinbych yn 3.8%). Mae hyn yn golygu cynnydd yn y Dreth i dŷ yn Band D o £29.73 yn flynyddol. O ran toriadau ac arbedion, mae'r Cyngor yn argymhell dim toriadau i Ysgolion, gostyngiad o 1% i Wasanaethau Cymdeithasol a 2% i Wasanaethau Eraill.

Addysg:

Mae disgyblion Cyfnod Sylfaen i gyd yn ôl yn yr ysgol, ac o Fawrth y 15^{fed} fe fydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 Cynradd, a Blynyddoedd 11 a 13 (ac o bosib 12) Uwchradd yn dychwelyd hefyd.

Cyffredinol:

Mae ffigyrau Covid Sir Conwy (a Gwynedd) yn dal yn uchel – ymysg yr uchaf yng Nghymru - a does na ddim eglurhad clir am hyn. Ar hyd y Gogledd mae 240,000 brechlyn Covid wedi eu rhoi yn y rhanbarth hyd at Mawrth 1af.

Cefais fy ethol yn Gadeirydd Fforwm Ardal Leol – De ddeufis yn ôl. Mae'r Fforwm yn cynrychioli ardaloedd gwledig De Sir Conwy ac yn delio hefo pynciau sy'n berthnasol a phwysig i'n hardaloedd ni, materion fel cysylltedd, llifogydd, trafndiaeth a chludeant, a chynaliadwyedd cyffredinol yr ardal. Mae dyfodol tref Llanrwst yn uchel ar yr agenda a sut i ddatblygu'r Dref i fod yn ganolbwynt i'r ardal gyfan o ran economi, busnes a diwylliant. Mae trafodaeth ar hyn o bryd ar ddatblygu Canolfan Glasdir ac ar ddyfodol Depot y Cyngor yn Plas yn Dre. Mae cyfarfod yn fuan i drafod sefydlu Partneriaeth Llifogydd Gwledig i'r ardal – mater arall sydd yn berthnasol iawn i'r hardal ni.

Lleol

Mae'n dda gweld fod nifer o ffyrdd yr ardal wedi cael wyneb newydd ac eraill wedi eu trwsio ac mae'r gwaith torri gwrychoedd yn mynd rhagddo. Mae hyn yn digwydd er gwaethaf effaith y Pandemig ar lefelau staffio Covid ar draws adrannau'r Awdurdod.

Yn anffodus mae problem baw cwn wedi codi'i ben eto, y tro yma ym Mhandy Tudur. Cafwyd nifer o gwynion, ac er i weithwyr y Cyngor glirio'r llanast bythefnos yn ôl, roedd problem eto yn yr un ardal wythnos dwetha. Rydw'i wedi cysylltu hefo'r Cyngor i gwyno am y sefyllfa ac i ofyn am arwyddion rhybudd yn y pentref.

Yn dilyn cwynion fod car wedi ei adael yn y safle parcio ger mynedfa Glan Collen ers tua blwyddyn, rydw'i wedi bod yn trafod sut i gael datrusiad hefo'r Cyngor Sir. Yn anffodus mae'r mater yn un cymhleth – yn ymwneud a dwy adran yn y Cyngor, DVLA yn Abertawe ac o bosib yr Heddlu.

Rydw'i yn gobeithio y bydd y gwaith o drwsio'r Bont Faen yn ail ddechrau cyn hir. Fe gofiwch dwi'n sir fod y gwaith sylweddol i fod i ddechrau cyn y Nadolig a wedyn ym mis Ionawr, ond fod problem wedi codi gyda sefydliad Cadw ynglyn â'r deunyddiau oedd i'w defnyddio yn y gwaith adnewyddu. O be dwi'n ddeall, mae'r trafodaethau rhwng yr Adran Priffyrdd a Cadw yn parhau i geisio cael datrusiad."

9 BILIAU

9.1 Menter Bro Cernyw: £500. Yr arian yma wedi ei ddynodi yn y gyllideb. Pawb yn gytun i dalu.

9.2 Enlli: £37.84. Cytunwyd i dalu.

10 MATERION LLEOL

- 10.1** Ebost wedi dod i law y Cyngor gan Elwen Owen ynglyn â baw cŵn yn Llangernyw a Pandy Tudur. DR wedi cysylltu efo'r Cyngor, wedi cael addawiad fod pamphledi gael eu gyrru ati. DR am fynd o amgylch Pandy Tudur a'u rhoi drwy blychau post yn y pentref. DR wedi rhoi neges yn y Gadlas ar ran y Cyngor yn gofyn i drigolion Bro Cernyw godi baw eu cŵn. AV wedi cysylltu efo Elwen Owen hefyd ynglyn â'r pamphledi hefyd. AV wedi holi Elwen Owen os oedd bin baw ci yn Pandy Tudur. REW yn adrodd fod y Cyngor wedi gwrthod rhoi un yn Gwytherin. Pawb yn gytun fod y sefyllfa yn warthus fod y Warden Cŵn ddim yn dod allan oherwydd Covid-19. Sefyllfa ddim yn dderbyniol o gwbl. EW am godi'r mater efo GLL. Elwen Owen hefyd wedi codi fod angen i'r llwybrau cyhoeddus o amgylch Llangernyw gael eu clirio.
- EW** yn canmol Cymdeithas Pandy Tudur sydd wedi cynnal eu Eisteddfod dros Zoom eleni.
- GD** yn nodi fod llawer o dyllau yn y ffyrdd a cyflwr y ffyrdd yn wael yn y dalgylch yn ddiweddar, ffordd rhwng Llangernyw a Llanfair Talhaearn yn ddrwg iawn.
- REW** am adrodd am broblemau ar ffyrdd yng Ngwytherin drwy wefan Report It. Wedi rhoi hysbyseb yn y Gadlas am dorri glaswellt yn y mynwentydd. Dei Evans wedi cysylltu efo REW i ofyn pwy sydd angen gyrru'r tender. REW am dderbyn y tender.
- Bryn Castell, Gwytherin - edrych yn debyg fod estyniad yn mynd i fyny, CR am wneud ymholiadau efo Adran Gynllunio'r Cyngor Sir.
- Ffens y cae chwarae yng Ngwytherin wedi mynd yn sâl, am godi'r mater hwn efo GLL.
- AV** adrodd fod aelod o'r cyhoedd wedi bod yn hel sbwriel i fyny ffordd Hafodunos yn ddiweddar.
- Gofyn os yw'r sgipiau sydd yn dod i Langernyw ar ddydd Sadwrn dal yn dod i'r pentref. REW yn cadarnhau eu bod yn dal i ddod ar hyn o bryd. EHE wedi sôn yn y cyfarfod diwethaf fod y cynllun sgipiau misol yn dod i ben yn fuan. CR am gysylltu efo EHE i ofyn pryd mae'r cynllun hwn yn dod i ben, fydd hyn yn galluogi trefnu archebu sgipiau ar ran y Cyngor Cymuned. EW wedi derbyn ebost fod côst y sgipiau yn codi i £230 eleni.
- DR** wedi cael cwynion am y dŵr sydd yn llifo o Crel ac yn llifo i erddi cefn yn Fedwen Arian. Gofyn os oes unrhyw beth all rhywun wneud am hyn. Angen glanhau y gwter. Ar y ffordd o Eglwysbach i Langernyw, dau dwll mawr yn y palmant, perygl i'r cyhoedd os yn camu i'r ffordd. DR am ddefnyddio Report It i hysbysu'r Cyngor Sir am y ddau fater hwn.
- Gofynodd am ddiweddariad am TAW y Cyngor. Adroddod GD nad yw wedi clywed gan y cyfrifydd am hyn. GD yn gofyn os yw DR yn gallu cysylltu efo'r Cyfrifydd i ddilyn hyn i fyny. DR am ebostio'r Cyfrifydd a chysylltu efo GD ar ôl cael ateb ynglyn â hyn.

11 CYFARFOD NESAF

31^{ain} Mawrth 2021 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:30yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan